Ymgyrch 20mya Gogledd Llanelli

Mae plant yn Llanelli wedi bod yn dysgu gyrwyr sy'n gor-yrru gan dorri'r terfyn 20mya y tu allan i'w hysgolion nhw, ac wedi gofyn iddyn nhw esbonio pam.

Mae disgyblion Ysgol Pen-y-gaer, Ysgol Dewi Sant ac Ysgol y Felin wedi bod yn gweithredu i arafu modurwyr, gyda chymorth uned diogelwch ffyrdd Cyngor Sir Gaerfyrddin a swyddogion Heddlu Dyfed-Powys, GoSafe, a Gwasanaeth Tân ac Achub y Gorllewin a'r Canolbarth.

Cafodd cyfanswm o 33 o yrwyr eu stopio yn ystod y fenter, gan gynnwys pump am beidio â gwisgo gwregys diogelwch.

Defnyddiodd y plant Ddyfais Dangos Cyflymder i weld cyflymder modurwyr a oedd yn pasio a chafodd y gyrwyr a oedd yn troseddu ddewis o siarad â'r plant i esbonio pam roedden nhw'n torri'r terfyn cyflymder neu gael dirwy o £100 a thri phwynt cosb.

Mae Gogledd Llanelli, s wedi'i dewis fel un o wyth cymuned yng Nghymru i dreialu terfyn cyflymder cenedlaethol arafach o 30mya i 20mya mewn ardaloedd preswyl a strydoedd prysur i gerddwyr.

Dywedodd Lee Waters, y Dirprwy Weinidog dros Newid yn yr Hinsawdd sy'n gyfrifol am Drafnidiaeth, "Rydym eisoes wedi gweld yr effeithiau y mae'r terfynau 20mya presennol wedi'u cael o ran lleihau cyflymderau a digwyddiadau difrifol ar ein ffyrdd. Rwy'n credu y bydd y fenter orfodi arloesol hon ar safle un o'n cynlluniau peilot 20mya yn annog modurwyr i yrru'n gyfrifol, gan roi diogelwch plant ar flaen eu meddyliau bob amser."

Rhagor o wybodaeth yma.

YN Y RHIFYN HWN:

Plant yn Dysgu Gyrwyr sy'n Gor-yrru
Cyngor ar Ddiogelwch Gyrwyr i Berchnogion Anifeiliaid Anwes
Canllawiau newydd gan yr HSE ynghylch Gyrru ar gyfer Gwaith
Cofiwch feiciau modur
Cynnydd ar Allyriadau Sero
Ymgynghori ar Ymchwilio i Wrthdrawiadau
40 Mlynedd o Wregysau Diogelwch

Peidiwch Byth â Gyrru gydag Anifail Anwes yn Rhydd yn y Cerbyd

Mae gyrru'n ddiogel yn gofyn am eich sylw llawn a golwg dros y ffordd sydd heb ei rhwystro; mae unrhyw beth llai yn cynyddu'r risg o wrthdrawiad ac anaf posibl.

Rydyn ni i gyd yn gwybod bod defnyddio ffôn symudol wrth y llyw a phethau eraill yn y cerbyd sy'n tynnu'ch sylw yn ffactorau risg arwyddocaol, ond ydych chi wedi meddwl am bwysigrwydd cario'ch anifail anwes yn ddiogel yn eich cerbyd?

Dyma fater sy'n cael ei anwybyddu'n aml, ond gall hyd yn oed yr anifail mwyaf ufudd gael ei ddychryn gan rywbeth anghyffredin ac ymateb mewn ffordd sy'n peryglu diogelwch y gyrrwr, cyd-deithwyr a defnyddwyr eraill y ffordd.

Rhoddodd Teresa Ciano, Cadeirydd Diogelwch Ffyrdd Cymru, y cyngor canlynol i berchnogion anifeiliaid anwes, "Mae'n hanfodol sicrhau bod eich anifail anwes yn cael ei ddiogelu'n saff, gan ddefnyddio harnais a gwregys diogelwch, cludwr anifeiliaid anwes, cawell cŵn, neu gard cŵn wrth deithio mewn cerbyd. Os bydd gwrthdrawiad, gall anifail anwes heb ei glymu droi'n daflegryn peryglus, gan ddal i symud ymlaen yn rymus o fewn y cerbyd a tharo teithwyr eraill. Mae Diogelwch Ffyrdd Cymru yn atgoffa gyrwyr i sicrhau bod anifeiliaid anwes yn cael eu diogelu'n saff ar bob taith."

Mae'r grymoedd mewn gwrthdrawiad yn gwneud y canlyniadau'n arwyddocaol - ar 30mya, byddai ci heb ei ffrwyno sy'n pwyso 50 pwys (22½kg) yn cael ei daflu ymlaen gyda grym sy'n cyfateb i bron i naw o bobl 12 stôn (80kg). Gall y potensial ar gyfer niwed difrifol i'ch ci ac i bobl yn y cerbyd gael ei leihau drwy glymu'ch anifail anwes yn ddiogel gan ddefnyddio'r ataliad cywir.

Ychwanegodd Teresa Ciano, "Os bydd gwrthdrawiad yn digwydd pan fydd anifail anwes yn rhydd yn y cerbyd, fe allai ddianc, cael ei daro gan gerbyd arall neu achosi gwrthdrawiad arall. Er mwyn diogelu'ch anifail anwes, dewiswch safle yn y cerbyd lle na fydd yn cael ei anafu os bydd bag awyr yn gweithio a pheidiwch â chaniatáu iddo deithio gyda'i ben allan o'r ffenestr – nid yn unig y bydd yn agored i raean a malurion, ond mae perygl iddo neidio neu ddisgyn o'r cerbyd neu gael ei daro gan gerbyd neu rywbeth arall sy'n dod tuag atoch."

Dywedodd Wayne Tucker, Swyddog Diogelwch Ffyrdd Heddlu De Cymru, "Yn ystod ein gwaith diweddar fel rhan o Ymgyrch Options, lle rydyn ni'n addysgu ac yn hysbysu defnyddwyr y ffordd am bwysigrwydd gwisgo gwregys diogelwch, gwelson ni nifer o yrwyr ag anifeiliaid anwes yn rhydd yn y cerbyd.

"Fe welson ni hefyd gŵn bach yn teithio ar lin y gyrrwr, sef rhywbeth sy'n beryglus iawn ac yn peri pryder yn arbennig. Mae gyrwyr yn rhoi eu hunain mewn perygl o gael eu herlyn am fod heb reolaeth briodol dros eu cerbyd, sy'n arwain at ddirwy ac arnodiad ar eu trwydded. Mae'n hanfodol bod gyrwyr yn clymu eu hanifeiliaid anwes yn gywir – rydych chi'n eu diogelu nhw, chi'ch hunan a defnyddwyr eraill y ffordd."

HSE yn cyhoeddi canllawiau newydd ynghylch Gyrru ar gyfer Gwaith

Wrth lansio eu canllawiau newydd ac estynedig ynghylch Gyrru ar gyfer Gwaith, mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn tynnu sylw at y ffaith mai gyrru yw'r gweithgaredd mwyaf peryglus y bydd y rhan fwyaf o weithwyr yn ei wneud.

Mae'r canllawiau diwygiedig ynghylch risg ar y ffyrdd sy'n gysylltiedig â gwaith wedi'u cyhoeddi i glirio dryswch ynghylch pwy sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r gyfraith pan fydd gweithwyr yn defnyddio cerbydau personol fel rhan o'u swydd. Mae'r newid yn deillio o'r economi gig cynyddol a fflyd lwyd gynyddol. Ewch i'r wefan newydd yma.

Edrychwch unwaith, edrychwch eto, cofiwch feiciau modur

Neges Heddlu Gwent i yrwyr: 'Edrychwch unwaith, edrychwch eto, cofiwch feiciau modur'

Yn ôl pellter a deithiwyd, beicwyr modur sydd â'r gyfradd uchaf o farwolaethau neu anafiadau difrifol o holl ddefnyddiwr y ffyrdd.

Mae Heddlu Gwent yn lansio ymgyrch sy'n pwysleisio'r neges bod angen i yrwyr ceir edrych eilwaith am feiciau modur, ac i feiciau modur gymryd cyfrifoldeb personol dros yrru'n ddiogel.

Mae'r ymgyrch yn atgoffa gyrwyr bod person go iawn o dan yr helmed, rhywun gyda swydd, ymrwymiadau, rhywun sy'n werthfawr yn y gymuned, a rhywun sydd ag anwyliaid yn aros iddo ef neu hi ddod adref.

Ochr yn ochr â hyn, bydd ymgyrch gyffelyb yn targedu gyrwyr beiciau modur, yn eu hannog nhw i 'wirio'r ffordd er mwyn lleihau'r perygl'.

Mewn gwrthdrawiadau difrifol, rhai nad ydynt yn cynnwys cerbyd pedair olwyn, camgymeriad ar ran gyrrwr y beic modur sy'n gyfrifol fel arfer, gan gynnwys safle anghywir ar y ffordd, peidio â bod yn ddigon gweladwy ar y ffordd, a chrebwyll gwael o ran cyflymder wrth droi corneli. Mae pethau y gall beicwyr eu gwneud eu hunain i leihau'r perygl.

Yn ôl yr elusen diogelwch Brake, mae bron i bedair rhan o bump o wrthdrawiadau beiciau modur yn ymwneud â gwrthdrawiad gyda cherbyd arall - gyrwyr ceir nad ydynt yn edrych yn ddigon gofalus am feiciau modur yn bennaf.

Meddai Rhingyll Leighton Healan, Heddlu Gwent, "Roedd 25 gwrthdrawiad traffig ffyrdd difrifol yn ymwneud â beiciau modur yn ardal Heddlu Gwent yn y 12 mis hyd at 8 Medi 2021, a arweiniodd at dair marwolaeth a 25 anaf difrifol*. Mae gyrwyr beiciau modur tua 45 gwaith yn fwy tebygol o gael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar y ffordd na gyrwyr ceir.

"Mae'r marwolaethau ac anafiadau difrifol hynny'n golygu bod anwyliaid yn dioddef. Mae pob gwrthdrawiad sy'n ymwneud â beic modur un yn ormod. Gyrwyr ceir: beth am ymroi i wneud newid syml trwy edrych eilwaith am feiciau modur. Gyrwyr beiciau modur: cymrwch gyfrifoldeb dros reidio'n ddiogel ac yn amddiffynnol."

Cynnydd ar Allyriadau Sero

Yn COP26, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y bydd pob cerbyd nwyddau trwm newydd yn y Deyrnas Unedig yn ddi-allyriad erbyn 2040. Ar y cyd â phenderfyniad y Deyrnas Unedig i ddileu ceir a faniau petrol a disel erbyn 2040, mae hyn yn addewid sy'n arwain y byd i roi terfyn ar werthu pob cerbyd ffordd sy'n llygru o fewn y ddau ddegawd nesaf.
Mae hyn yn dod wrth i ymchwil newydd, a gomisiynwyd gan Lywyddiaeth y Deyrnas Unedig dros COP, ddangos y cynnydd a wnaed yn y farchnad cerbydau teithwyr:

- **Mae 31% o'r farchnad cerbydau teithwyr byd-eang bellach yn dod o dan ymrwymiadau gan weithgynhyrchwyr cerbydau i roi terfyn ar werthu cerbydau sy'n cael eu pweru gan danwydd ffosil, i fyny o gyfran o'r farchnad a oedd bron yn sero ar ddechrau 2021**
- **Mae gwerthiant byd-eang cerbydau dim allyriadau (ZEVs) wedi tyfu'n ddramatig ers 2019 o 2.1 miliwn i 5.3 miliwn**
- **Rhagwelir y bydd ZEVs yn 70% o'r holl geir newydd a werthir yn 2040, sef amcanestyniad sydd wedi dyblu yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.**

DfT yn Lansio Ymgynghoriad ar Gangen Ymchwilio i Wrthdrawiadau ar y Ffyrdd

Gallai cangen ymchwilio newydd sy'n ymroddedig i ddysgu gwersi o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd gael ei sefydlu o dan gynlluniau sydd wedi'u datgelu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Mae'r Adran Drafnidiaeth (DfT) wedi lansio ymgynghoriad ar gynigion i sefydlu Cangen Ymchwilio i Wrthdrawiadau ar y Ffyrdd (RCIB), a fyddai'n cynnal ymchwiliadau thematig ac yn ymchwilio i ddigwyddiadau penodol sy'n peri pryder er mwyn darganfod achosion gwrthdrawiadau a gwneud argymhellion annibynnol ynghylch diogelwch er mwyn helpu i wella diogelwch ar y ffyrdd ymhellach ledled y wlad.

Byddai'r RCIB yn gweithredu'n debyg iawn i'r cyrff annibynnol tebyg sydd eisoes yn bodoli ar gyfer damweiniau awyr, môr a rheilffyrdd. Dywedodd y Gweinidog Ffyrdd, y Farwnes Vere, "Mae ffyrdd y Deyrnas Unedig ymhlith y mwyaf diogel yn y byd, ond rydyn ni bob amser yn chwilio am ffyrdd o'u gwneud hyd yn oed yn fwy diogel.

"Byddai cangen ymchwilio newydd yn chwarae rhan enfawr yn y gwaith hwn drwy ddod o hyd i achosion sylfaenol gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, er mwyn inni gymryd camau i'w hatal rhag digwydd eto.

"Byddai hefyd yn rhoi dirnadaeth hanfodol inni wrth inni barhau i foderneiddio'n rhwydwaith ffyrdd er mwyn sicrhau teithiau gwell, gwyrddach a mwy diogel."

Gallwch weld yr ymgynghoriad, a fydd yn para tan 9 Rhagfyr 2021, yma.

40 Mlynedd o Wregysau Diogelwch

Yn dilyn cyfnod hir o ymgyrchu, ym 1981 manteisiodd yr Arglwydd Nugent o Guildford, Llywydd RoSPA, ar ei gyfle gyda gwelliant i'r Bil Trafnidiaeth a gyflwynodd gyfnod prawf o wisgo gwregys diogelwch am dair blynedd. Cariodd llywydd RoSPA y maen i'r wal a daeth y Bil yn ddeddf gwlad... o'r diwedd.

Ar ddiwedd y treial, pleidleisiodd dau Dŷ'r Senedd yn llethol dros gadw'r gofyniad i yrwyr a chyd-deithwyr (oedolion a phlant) wisgo gwregys diogelwch yn seddau blaen cerbydau. Cafodd y gyfraith ei hymestyn i gefn cerbydau ddegawd yn ddiweddarach ym 1991. Aeth 10 mlynedd arall heibio cyn bod angen gosod gwregysau diogelwch ar bob bws mini a choets. Er bod dros 90% o'r rhai sy'n teithio mewn cerbydau yn cydymffurfio, mae yna leiafrif ystyfnig sy'n gwrthod cydnabod bod gwregysau diogelwch yn effeithiol iawn o ran lleihau anafiadau a marwolaethau os bydd gwrthdrawiad. Amcangyfrifir y gellid achub tua 300 o fywydau mewn gwrthdrawiadau pe bai pawb yn gwisgo gwregys diogelwch.

40 mlynedd ar ôl y gyfraith gyntaf ar wregysau diogelwch, ydy hi'n bryd ystyried pwysleisio arwyddocâd diffyg cydymffurfio a risg drwy gynnyddu'r ddirwy bresennol o £100 ac ychwanegu tri phwynt cosb?